Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Tachwedd
November
2023

# Newyddion Dysgu Cymraeg

# Learn Welsh Latest



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg
Dysgu
Learn

# Helo!

## Croeso cynnes i'n cylchlythyr diweddaraf.

Un o brif amcanion y Ganolfan yw i weithio gydag eraill i greu cyfleoedd i bobl o bob oed ddysgu a mwynhau'r Gymraeg, a dan ni'n falch iawn o gyhoeddi'n partneriaeth ddiweddaraf, gyda Gwobr Dug Caeredin.

Bydd y fenter gyffrous yma yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dysgu mwy am Gymru, gan agor y drws ar fyd o bosibiliadau newydd.

Gallwch ddysgu am ddatblygiad arall sy'n annog dysgwyr i ddefnyddio'u Cymraeg yn eu cymunedau, ac mae modd darllen am holl waith y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn Adroddiad Blynyddol 2022-2023 y Ganolfan.

Mae croeso i chi gysylltu â ni ar swyddfa@dysgucymraeg.cymru os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu syniadau ar sut i gefnogi ein gwaith.

Pob hwyl,

Dona

**Dona Lewis**
**Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

## Croeso – a warm welcome to our latest newsletter.

One of the Centre's key aims is to work with others to create opportunities for people of all ages to learn and enjoy the Welsh language, and we're delighted to announce our latest partnership, with the Duke of Edinburgh's Award (DofE).

This exciting venture will enable young people to develop their Welsh language skills and learn more about Wales, opening the door on a world of new possibilities.

You can learn about another development to encourage learners to use their Welsh in their communities, and you can also read about the Centre's work over the past academic year in its 2022-2023 Annual Report.

You're welcome to contact us at office@learnwelsh.cymru if you have any questions or ideas on how to support our work.

Pob hwyl – best wishes,

Dona

**Dona Lewis**
**Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh**



# Partneriaeth newydd gyda Gwobr Dug Caeredin

Mae Gwobr Dug Caeredin (DofE) a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cyhoeddi fod adnodd Dysgu Cymraeg wedi'i ychwanegu at adran sgiliau'r Wobr.

Y Ganolfan sydd wedi datblygu'r adnodd, sy'n cyflwyno geiriau, ymadroddion a phatrymau iaith, gan ddilyn themâu fel cerddoriaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r datblygiad yn rhan o ddarpariaeth y Ganolfan ar gyfer pobl 16-25 oed.  Mae'r garfan yma'n gallu dilyn cwrs Dysgu Cymraeg am ddim, gyda chyrsiau ac adnoddau penodol ar gael.  Mae cyfleoedd i ddysgu'r iaith yn y gweithle ac mewn prifysgolion a cholegau hefyd.




*Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Meinir Ebbsworth, Cyfarwyddwr Strategol y Ganolfan; Dylan o Gaerdydd, un o lysgenhadon Gwobr Dug Caeredin, sy'n dysgu Cymraeg ac sy'n dilyn y sgil Dysgu Cymraeg newydd; a Stephanie Price, Cyfarwyddwr Gwobr Dug Caeredin yng Nghymru.*

*Pictured, from left to right: Meinir Ebbsworth, Director of Strategy at the Centre; Dylan from Cardiff, a Duke of Edinburgh's Award ambassador, who's learning Welsh and who's following the new Learn Welsh skill; and Stephanie Price, Duke of Edinburgh's Award Wales Director.*

I ddarllen mwy am ddysgu Cymraeg gyda Gwobr Dug Caeredin, dilynwch y ddolen isod:
Dysgu Cymraeg gyda Gwobr Dug Caeredin | Dysgu Cymraeg

# New partnership with Duke of Edinburgh's Award

The Duke of Edinburgh's Award (DofE) and the National Centre for Learning Welsh have announced that a Learn Welsh resource has been added to the skills section of the Award.

Developed by the Centre, the resource introduces words, phrases and language patterns, following themes such as Welsh music and culture.

The development is part of the Centre's provision for young people aged 16-25. This age group can follow a Learn Welsh course for free, with specific courses and resources available. There are also opportunities to learn the language in the workplace, and in universities and colleges.

To read more about learning Welsh with the Duke of Edinburgh's Award, select the following link:
Learn Welsh with the Duke of Edinburgh's Award | Learn Welsh

# Cryfhau sgiliau Cymraeg yn y byd Iechyd a Gofal

Mae'r Ganolfan wrthi'n datblygu adnoddau sy'n cyflwyno geiriau ac ymadroddion syml yn y Gymraeg ar gyfer staff y GIG ym mhob rhan o Gymru. Mae'r adnodd yn un o nifer o fentrau y mae'r Ganolfan yn eu datblygu er mwyn cefnogi cynllun 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio gwreiddio'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd cynllun mentora i godi hyder staff i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle, yn ogystal â rhaglenni Dysgu Cymraeg ar gyfer timau arbenigol.

# Strengthening Welsh language skills in the Health and Care sector

The Centre is developing a self-study resource introducing everyday Welsh words and phrases, which can be used by NHS staff across Wales. The resource is one of a number of initiatives underway by the Centre for the Health and Care sector, in order to support the Welsh Government's 'More than just words: Welsh language plan in health and social care'. A mentoring scheme will help NHS staff build confidence to use their Welsh at work, and there will also be Learn Welsh programmes for specialist teams.



# Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Bydd strydoedd siopa mewn tair o ardaloedd yn rhan o gynllun peilot newydd i dynnu sylw dysgwyr at y cyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gymuned.

Bydd Stryd Fawr Aberdâr, Treorci, Wrecsam, yr Wyddgrug, Aberteifi a Llanbed yn cymryd rhan yn y cynllun, sy'n cael ei drefnu ar y cyd gan y Ganolfan a Mentrau Iaith Cymru.

Bydd busnesau ar y strydoedd hynny, lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio, yn arddangos posteri 'Defnyddiwch eich Cymraeg – Hapus i Siarad', fel bod dysgwyr yn gwybod eu bod nhw'n gallu mwynhau defnyddio ac ymarfer eu sgiliau iaith newydd yno.

Mae'r cynllun wedi'i ysbrydoli gan brosiect 'Voluntariat per la Llengua' yr iaith Gatalan, sy'n sail i gynllun Siarad y Ganolfan, sy'n paru dysgwyr gyda siaradwyr Cymraeg.



# Opportunities to use Welsh in the community

Shopping streets in three areas will take part in a new pilot scheme to promote opportunities for learners to use their Welsh in their local communities.

High Streets in Aberdare, Treorchy, Wrexham, Mold, Cardigan and Lampeter will take part in the scheme, a joint project between the Centre and the Welsh language initiatives, Mentrau Iaith Cymru.

Shops and businesses where Welsh is used will have posters alerting learners to the fact they can enjoy using and practising their Welsh skills in those places.

The scheme has been inspired by the 'Voluntariat per la Llengua' project in Catalonia, on which the Centre's Siarad scheme, which matches Welsh learners and speakers, is based.

# Dathlu Dysgu Cymraeg ar Radio Cymru

Diolch i bartneriaeth rhwng y Ganolfan a BBC Cymru, rhoddwyd llwyfan i leisiau siaradwyr newydd fel rhan o'r Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg, a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref. Gallwch fwynhau podlediadau Radio Cymru ar gyfer dysgwyr trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

BBC Radio Cymru - Pigion: Highlights for Welsh Learners

# Celebrating learning Welsh on Radio Cymru

Thanks to a partnership between the Centre and BBC Cymru, the voices of new speakers of Welsh were heard across the airwaves as part of the week-long celebration of learning Welsh, Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg. You can enjoy Radio Cymru podcasts for Welsh learners by using the following link:

BBC Radio Cymru - Pigion: Highlights for Welsh Learners




# Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2022-2023

I ddarllen Adroddiad Blynyddol diweddara'r Ganolfan, dilynwch y ddolen isod:
adroddiad-blynyddol-annual-report-2022-2023.pdf (dysgucymraeg.cymru)

# Publication of the 2022-2023 Annual Report

To read the Centre's latest Annual Report, select the following link:

adroddiad-blynyddol-annual-report-2022-2023.pdf (dysgucymraeg.cymru)



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn